**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 13 Ebrill 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J E Burtonshaw | M C Child |
| E W Fitzgerald | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | W G Lewis |
| G J Tanner | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

D Anderson-Thomas    A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

C A Holley    S M Jones
P R Hood-Williams    J W Jones

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rosie Jackson | Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliadau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Tai Cymunedol |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: L R Jones

---

## 56 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Mark Child – Cofnod Rhif 60 – Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe – Personol

## 57 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 58 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

## 59 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 60 Craffu'r Strategaeth Digartrefedd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau/y Dirprwy Arweinydd 'Adroddiad Cynnydd ar y Strategaeth Digartrefedd'.

Roedd y Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd, y Rheolwr Gweithrediadau, y Gwasanaethau Tai Cymunedol a'r Uwch-swyddog Rheoli Polisi a Lesddaliadau hefyd yn bresennol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r cynnydd gyda Strategaeth Digartrefedd y cyngor ers iddi gael ei mabwysiadu gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2018.

Amlygodd Aelod y Cabinet y canlynol:

- Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r gwasanaeth
- Ymrwymiad i’r addewid 'gwely ar gael bob amser'
- Roedd y Strategaeth Digartrefedd ar y pwynt canolog ar hyn o bryd
- Er gwaethaf y pandemig gwnaed cynnydd da ar bob un o 5 amcan y strategaeth
- Roedd y pandemig wedi arwain at waith partneriaeth rhagorol a gobeithiwyd y byddai hynny'n parhau

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Beth oedd wedi newid ers i'r strategaeth ddechrau – a oedd unrhyw elfennau'n ddiangen o ystyried y sefyllfa bresennol. Nodwyd bod y pandemig wedi cyflymu cynlluniau mewn sawl ffordd
- Cyllid a chynaliadwyedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn ystod y pandemig
- Canolbwyntio ar ymagwedd ailgartrefu cyflym – lapio cymorth amlasiantaethol o amgylch pobl i'w helpu i lwyddo yn eu tenantiaethau
- Mae’n debygol y caiff y prawf 'angen blaenoriaethol' ei ddileu fel maen prawf ar gyfer tai – effeithiau posibl ar gyllid, adnoddau a'r system bwyntiau gyfredol
- Newid amgyffrediad y cyhoedd o ddigartrefedd
- Nifer y bobl ddigartref mewn llety Gwely a Brecwast – ymdrechion i gael tai mwy cynaliadwy y lle hyn
- Yr angen i gynyddu'r cyflenwad o eiddo 1 ystafell wely – nid yw'r cyflenwad yn ateb y galw
- Cynnal adolygiad tai â chymorth dros dro
- Gwella'r sefyllfa i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid – darparu cymorth ar gyfer anghenion sylweddol, yn enwedig i’r rheini sy'n gadael llety’r Swyddfa Gartref

wrth newid statws. Nodwyd bod Abertawe yn un o bedair ardal wasgaru yng Nghymru
- Hyfforddiant ar 'Amgylchedd sy'n Seicolegol Wybodus' – effaith hynny – dyddiau cynnar i asesu effaith yr hyfforddiant hwn
- Effaith digartrefedd ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'u haddysg – sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl
- Plant sy'n gadael gofal – dywedwyd bod cymorth er mwyn bod yn 'barod ar gyfer tenantiaeth' yn gweithio'n dda
- Targed i osgoi tai Gwely a Brecwast i deuluoedd
- Symud oddi wrth ddatblygu 'canolfan atebion' gyfannol – opsiynau amgen ar gyfer gwasanaethau o'r fath gyda mwy o weithio allgymorth neu rai gwasanaethau a ddarperir mewn canolfannau eraill fel Tŷ Tom Jones neu Ganolfan Canol y Ddinas.
- Gweithio mewn partneriaeth rhwng y cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atal digartrefedd
- Cynnydd y rhaglen frechu mewn perthynas â'r rheini sydd wedi cael eu lletya gan y cyngor
- Darpariaeth/Cyllid i Gefnogi Iechyd Meddwl
- Cynnydd o ran darparu tai i'r rheini ag anifeiliaid anwes

Nododd y pwyllgor ac Aelod y Cabinet y gwaith rhagorol a wnaed gan staff yn ystod y pandemig.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet a'r swyddogion ar ran y Pwyllgor

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 61 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Datblygiad ac Adfywio (Y Cynghorydd Jeff Jones, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Jeff Jones, Cynullydd, yr wybodaeth ddiweddaraf am y Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

Yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, tynnodd sylw'n benodol at y ffaith bod y panel yn edrych ar ystod eang o bynciau yn ogystal â'r Fargen Ddinas. Byddai cam nesaf Datblygiad Canol y Ddinas yn hanfodol o ran llwyddiant y prosiect ar gyfer Abertawe a byddai'n parhau i gael ei fonitro gan y panel.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 62 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Hysbyswyd y pwyllgor fod y Cynghorydd Peter Jones wedi'i ailbenodi'n Gynullydd Panel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol.

**63 Rhaglen Waith Craffu ar Gyfer 2020/22.**

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2022/22.

Nododd y Cadeirydd fod y Gweithgor Craffu ar y Gweithlu wedi cyfarfod ar 29 Mawrth 2021. Cymeradwyodd y pwyllgor gais y Gweithgor i gyfarfod eto ymhen 6 mis i ailedrych ar y pwnc.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 18 Mai 2021. Y brif eitem a drefnwyd oedd Craffu ar Drosedd ac Anhrefn, a fyddai'n edrych ar berfformiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe, Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**64 Llythyrau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

**65 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.05 pm

**Cadeirydd**